# PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Ken Hughes, Aled Morris Jones, H.E. Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymunedol<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Adnoddau'r Cyngor a Swyddog Monitro (eitem 9)<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) (eitem 9)<br>Pennaeth Addysg<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Trefor Lloyd Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, R.G. Parry, OBE, Nicola Roberts |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr J A Roberts, Alwyn Rowlands |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y canlynol ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 9 ar y rhaglen ac ni chymerasant ran yn y drafodaeth:

Mrs Bethan Jones, Dirprwy Brif Weithredwr
Mrs Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned
Dr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w ddatgan.

### 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2014 yn gywir.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2014 fel rhai cywir.**

## 4 STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Effeithlonrwydd – Gwneud Gwahaniaeth a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2014.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod angen i'r Strategaeth Effeithlonrwydd roi cyfeiriad clir dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau dealltwriaeth ymysg y cyhoedd, staff a Chynghorwyr o sut y bydd yr awdurdod yn bwriadu cwrdd â'i heriau ariannol. Mae ymgynghoriad 2014 yn dilyn ymlaen o ymarfer tebyg a gynhaliwyd yn 2013. Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion i'r 16 o gynigion penodol, ynghyd â detholiad o sylwadau a wnaed trwy ystod o wahanol ddulliau ymgynghori - holiaduron, llythyrau ac e-byst yn ogystal ag ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Gofynnwyd i'r rheini a gymerodd ran i sgorio eu hatebion o 1 i 5, gydag 1 yn nodi eu bod yn anghytuno'n gryf gyda'r cynnig a 5 yn dynodi eu bod yn cytuno'n gryf.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi ymateb dinasyddion Ynys Môn i'r cynigion a'r syniadau a gyflwynwyd yn yr arolwg Gwneud Gwahaniaeth.**
- **Mabwysiadu'r Strategaeth Effeithlonrwydd yn ffurfiol ar gyfer 2014 ac alinio'r cynigion cyllidebol ar gyfer y 3 blynedd nesaf gyda'r egwyddorion a amlinellir ynddi.**

## 5 Y GYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2015-16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn ymgorffori'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2015-16. Mae'r adroddiad yn nodi'r cyd-destun i'r cynigion ynghyd â'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2014 yn cadarnhau gostyngiad o 3.9% yn y setliad GCR i Ynys Môn am 2015/16 sy'n cyfateb i £3.545m. Wrth gyflwyno atodlen o £4m o arbedion a oedd ynghlwm, yr amcan oedd ceisio lleihau unrhyw effaith ar wasanaethau i'r eithaf a diogelu'r Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Strategaeth Effeithlonrwydd wedi ei chymryd i ystyriaeth a mabwysiadwyd ymagwedd gwerth am arian. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid mai'r egwyddorion a oedd wedi llywio'r broses oedd yr ymdrech i beidio effeithio'n ormodol ar wasanaethau ac i beidio â defnyddio arian wrth gefn y Cyngor ar gyfer 2015/16 yn y disgwyl efallai y bydd raid ei ddefnyddio i gwrdd â heriau ariannol yn y blynyddoedd i ddilyn.

Wrth ystyried y gyllideb drafft, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bwysigrwydd sicrhau bod y cynigion wedi bod yn destun proses ymgynghori eang a thrwyadl.

**PENDERFYNWYD –**

- **Mabwysiadu'r gyllideb ddigyfnewid ddrafft fel sail ar gyfer cyllideb refeniw 2015/16.**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2015/16 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith gynllunio i gwrdd â chostau nad oes modd eu hosgoi mewn perthynas â diswyddo neu gostau unwaith ac am byth eraill i gyflawni arbedion heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.**

## 6 RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT 2015/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn ymgorffori'r rhestr o geisiadau cyfalaf a gynigiwyd gan yr adrannau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 i 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod cais wedi ei wneud i'r adrannau gyflwyno bidiau am brosiectau cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu strategaeth gyfalaf ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r rhestr lawn o gynigion i'w gweld yn Atodiad A. Adolygwyd y rhain fesul un a'u blaenoriaethu a'u sgorio wedyn yn seiliedig ar gyfres o feini prawf fel yr amlinellir yn Atodiad B i'r adroddiad. Cymharwyd y rhestr o fidiau yn erbyn amcangyfrif o'r adnoddau cyfalaf oedd ar gael (Atodiad C). Yr eitemau a oedd wedi eu hamlygu yn Atodiad A (a oedd yn werth £14,480m) oedd y rheini yr ystyriwyd eu bod yn briodol i'w cynnig ar gyfer eu cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2015/16. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid mai'r nod yw i'r rhaglen gyfalaf fod yn hunangyllidol a cheisio osgoi cynyddu ei ymrwymiadau benthyca a'r costau cysylltiedig a bod yn fwy rhagweithiol o ran cael gwared ar asedau nad yw eu hangen mwyach.

**Penderfynwyd y dylid cynnwys yr eitemau a oedd wedi eu hamlygu yn Atodiad A i'r adroddiad (a oedd yn werth £14,480m) yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 i 2019/20.**

## 7 COSTAU CLUDIANT YSGOL

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Dysgu yn amlinellu cynigion mewn perthynas â thendrau am gontractau bws ysgol a'r strwythur ffioedd.

Adroddodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg ar y rhesymeg dros y newidiadau a sylwadau'r Pwyllgor Sgriwitni Corfforaethol a oedd wedi cefnogi'r cynigion, gyda rhai amodau, mewn perthynas â chyflwyno trefniadau diogelwch i ddisgyblion sy'n colli eu tocynnau bws, cyfathrebu'r newidiadau yn glir i rieni, disgyblion a chyrff llywodraethu a chynnal asesiad risg o'r ddau wasanaeth anstatudol y bwriedir eu diddymu.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â chyfathrebu, cynnal asesiad risg o'r gwasanaethau i'w ddiddymu a chyflwyno trefniadau diogelwch mewn perthynas â disgyblion sy'n colli eu tocynnau bws.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo cyflwyno system “dim tocyn, dim teithio” er mwyn sicrhau bod gan bob teithiwr sedd benodol ar y bws.**
- **Cymeradwyo Opsiwn 2 a amlinellir yn yr adroddiad i gynyddu ffioedd yn raddol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda ffioedd a godir gan weddill yr awdurdodau yng Ngogledd Cymru.**
- **Sicrhau cysondeb yng ngweithrediad y polisi cludiant trwy ddileu’r gwasanaethau anstatudol a ganlyn: Pentre Berw i Ysgol Esceifiog a Maes Llwyn / Porth Amlwch i Ysgol Gynradd Amlwch, yn amodol ar gynnal asesiad risg ar gyfer y llwybrau hynny.**
- **Cyfathrebu’r newidiadau’n eglur i rieni, disgyblion a llywodraethwyr ysgol, a chyflwyno trefniadau diogelwch mewn perthynas â disgyblion sy’n colli eu tocynnau bws.**

**8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**9 AIL-STRWYTHURO'R UWCH DIM RHEOLI GYDA'R GOLWG AR WNEUD ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

Dosbarthwyd adroddiad y Prif Weithredwr i Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn nodi’r cynigion ar gyfer ailstrwythuro’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

*Aeth Miss Lynn Ball, Pennaeth Busnes y Cyngor a’r Swyddog Monitro allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar bwynt 6 Rhan D yr adroddiad.*

Mewn perthynas â’r Pwyllgor Penodi, roedd y Cynghorydd A.M. Jones yn dymuno nodi bod gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol ond nid pob plaid wleidyddol.

**Ar ôl ystyried y cynigion, penderfynwyd –**

- **Argymell Opsiwn 4 i’r Cyngor Sir fel yr opsiwn y mae’r Pwyllgor Gwaith yn ei ffafrio ar gyfer cyflawni’r amcanion ac fel un y mae modd ei weithredu, gyda golwg ar gomisiynu gwaith manylach i ddatblygu’r opsiwn ar gyfer ymgynghori gyda staff.**
- **Argymell cychwyn y rhaglen ailstrwythuro yn ddi-oed.**
- **Argymell bod y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi i gomisiynu cyngor cyfreithiol arbenigol a/neu arweiniad AD proffesiynol ar gyfer datblygu’r cynlluniau ymhellach os a phryd yr ystyrir bod angen gwneud hynny yn y broses.**
- **Argymell bod y rhaglen ailstrwythuro yn cael ei llywio gan y Prif Weithredwr.**

**• Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gywain barn rheoleiddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu ymhellach yr opsiwn a ystyrir yn yr argymhelliad terfynol cyn cyflwyno'r mater yn ffurfiol i'r Cyngor.**
**• Argymell bod swyddi statudol y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn cael eu hymgorffori o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**
**• Argymell y dylai'r broses o benodi Prif Weithredwr newydd gychwyn ar unwaith fel y cam cyntaf yn y broses o ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chymeradwyo'r opsiwn a ffefrir ar gyfer newid ar yr un pryd, ac, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor, gofyn i'r Pwyllgor Penodiadau weithredu'r broses recriwtio ar gyfer yr ailstrwythuro a gofyn iddo hefyd ystyried y strwythur tâl fel mater o flaenoriaeth.**
**• Awdurdodi'r Prif Weithredwr i rannu cynnwys yr adroddiad gydag aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y lle cyntaf i wahodd eu sylwadau, cyn cyflwyno'r mater i'r Cyngor Sir a chyn ymgynghori ymhellach gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Undebau Llafur.**
**• Gofyn i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth AD a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, i lunio amserlen ar gyfer pob cam yn y broses ymgynghori er gwybodaeth a chymorth i'r Arweinyddion Grwpiau.**

**Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**